Llyfryn

# Arolwg Chwilio chwilod

OPAL

OPAL

CRAFFU
AR NATUR









I gael rhagor o wybodaeth ac i gyflwyno eich data:

**www.opalexplorenature.org**

# Cyflwyniad

Drwy gymryd rhan yn yr arolwg ac anfon eich canlyniadau atom, byddwch yn helpu i ddysgu mwy am yr amrywiaeth anhygoel o infertebratau sydd yn yr amgylchedd adeiledig. Faint sydd yna a ble allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Bydd canlyniadau'r arolwg yn dweud wrthym hefyd pa gynefinoedd o bryfed sydd i'w gweld mewn ardaloedd trefol, maestrefol a gwledig er mwyn i ni allu gweld sut maen nhw'n cymharu. Cewch lawer o hwyl, felly ewch ati i chwilio!






## Beth yw infertebratau?



Mae infertebratau - sef anifeiliaid di-asgwrn-cefn - yn hollbwysig a difyr tu hwnt. Maen nhw'n rhan hanfodol o'n bywyd gwyllt ac yn gwneud pob math o bethau defnyddiol fel peillio llawer o'n planhigion ac ailgylchu maetholion drwy ddadelfennu dail sydd wedi disgyn. Maen nhw'n darparu bwyd ar gyfer anifeiliaid eraill fel adar, amffibiaid a mamaliaid, ac mae llawer ohonynt yn greaduriaid hyfryd i'w gwylio os ydych chi'n cymryd amser i edrych a gwerthfawrogi.




**Mae 96% o'r holl anifeiliaid y gwyddom amdanynt yn infertebratau ac maen nhw'n bwysig iawn... hebddynt byddai'r byd yn lle gwahanol iawn.**








Anifeiliaid

- Infertebratau (anifeiliaid di-asgwm-cefn), 1.3 miliwn o rywogaethau, e.e pryfed, mwydod a chorynod
- Fertebratau (anifeiliaid ag asgwrn cefn), 60,000 o rywogaethau, e.e adar, pysgod a mamaliaid








# Sut mae pryfed yn addasu i amgylchedd sy'n newid?

Wrth gerdded o gefn gwlad drwy faestrefi tref neu ddinas fawr ac i'w chanol, byddwch yn sylwi ar lawer o newidiadau. Bydd yn edrych yn llai gwyllt, gyda llai o lecynnau glas neu blanhigion, bydd llawer mwy o strwythurau caled wedi'u gwneud gan ddyn, fel adeiladau a ffyrdd, a mwy o bobl.

Mae'r newidiadau hyn yn debygol o effeithio ar infertebratau yn union fel maen nhw'n effeithio arnom ni, ond ni wyddom sut mewn gwirionedd. Gyda threfi a dinasoedd yn ymestyn o hyd, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn dod i wybod hyn. Dyma lle gallwch helpu, drwy gymryd rhan yn arolwg Chwilio am Bryfed.








# Paratoi i'r arolwg

Byddwch angen treulio rhwng hanner awr ac awr yn cwblhau'r arolwg Chwilio am Bryfed. Mae tair rhan i'r arolwg:

**A** Archwilio'ch ardal (tudalennau 7-8). Dysgwch am y gwahanol ficro-gynefinoedd yn yr ardal ac ewch ati i gynllunio ble i chwilio am bryfed.

**B** Mae'r tair her yn rhai yn erbyn y cloc. Mae pob un yn helfa i ganfod ac adnabod cymaint o infertebratau â phosibl mewn **15 munud** – gallech osod larwm er mwyn i chi wybod pryd fydd y 15 munud wedi dod i ben! Chi sydd i ddewis ym mha drefn rydych chi'n cyflawni'r heriau.

- **Her 1** – Chwilio am infertebratau sy'n byw ar **arwynebau tir meddal** fel pridd, glaswellt byr neu ymysg dail a brigau sydd wedi disgyn.
- **Her 2** – Chwilio am infertebratau ar a**rwynebau caled sydd wedi'u gwneud gan bobl** fel palmentydd, ffensys a thu allan i adeiladau.
- **Her 3** – Chwilio am infertebratau ar **blanhigion**, gan gynnwys glaswellt hir, blodau, llwyni a choed.

**Chwilfa Rhywogaethau**. Yn ystod pob her, cadwch lygad am y chwe chwilen a ddisgrifir yn y **Chwilfa Rhywogaethau y Canllaw Adnabod** sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn arolwg hwn.

## Offer hanfodol i fynd gyda chi

- Pecyn Arolwg Chwilio am Bryfed OPAL sy'n cynnwys **Llyfryn** yr arolwg*, **Chwilfa Rhywogaethau y Canllaw Adnabod**, **Canllaw Adnabod Infertebratau** a **chwyddwydr** OPAL
- Cynhwysydd casglu lliw golau i ddal yr infertebratau, fel padell lwch a brwsh.






- Cynhwysydd i roi'r trychfilod ynddyn nhw tra'ch bod chi'n eu hadnabod nhw.

* Gallwch lawrlwytho mwy o daflenni cofnodi o wefan OPAL.





## Eitemau defnyddiol ar gyfer yr awyr agored (os oes gennych chi nhw)

- Map neu ddyfais System Leoli Fyd-eang
- Ffôn symudol (i'w ddefnyddio mewn argyfwng)
- Camera

Pan welwch chi'r symbol hwn, cymerwch lun a'i lanlwytho i wefan OPAL

Yr amser gorau i gynnal yr arolwg hwn yw ddiwedd y gwanwyn, yn yr haf a dechrau'r hydref. Mae'n bwysig iawn eich bod yn anfon eich canlyniadau atom. Gallwch gofnodi'ch canlyniadau yn **www.opalexplorenature.org** neu postiwch nhw atom gan ddefnyfdio'r cyfeiriad Rhadbost ar dudalen 15.

## Sut i adnabod eich trychfilod

Defnyddiwch eich **Canllaw Adnabod Infertebratau** i'ch helpu i adnabod y trychfilod. Mae cod lliw i bob tudalen, yn union fel tablau canlyniadau'r llyfryn hwn, lle gallwch gofnodi eich canfyddiadau. Edrychwch ar y Canllaw Adnabod Poced yn awr. Efallai y byddai'n haws i chi roi chwilen mewn jar er mwyn ei hadnabod, ond cofiwch ei rhoi yn ôl lle cawsoch hi. Cofiwch adnabod y pryfed wrth i chi ddod ar eu traws o *fewn* y 15 munud bob tro (nid ar ôl hynny). Mae hyn yn bwysig ar gyfer gallu cymharu'ch canlyniadau â chanlyniadau phawb arall.

### Gwaith maes diogel

- Ewch â ffrind cyfrifol gyda chi a fydd yn gallu'ch helpu os oes rhywbeth yn mynd o'i le. Gofalwch fod y ddau ohonoch yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn gallu galw am gymorth os oes angen. Cofiwch fynd â ffôn wedi ei wefru'n llawn gyda chi.
- Goruchwyliwch blant ifanc drwy'r adeg.
- Peidiwch â cheisio troi unrhyw gerrig neu foncyffion trwm, dim ond rhai y gallwch eu codi'n hawdd. Cofiwch eu rhoi'n ôl fel roedden nhw cyn i chi gyrraedd.
- Cadwch lygad am ddanadl poethion, pethau pigog a drain.
- Cadwch lygad am wrthrychau miniog, e.e. gwydr wedi torri.
- Byddwch yn ofalus wrth drafod pryfed – maen nhw'n fregus, felly peidiwch â'u codi oni bai bod hynny'n angenrheidiol. Os ydych chi'n rhoi chwilen mewn jar i'w hastudio, peidiwch â'i gadael yn y jar am ormod o amser, a pheidiwch â'i gadael yn yr haul.
- Rhowch y pryfed yn ôl yn y lle y daethoch ar eu traws bob tro.


Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch ar gael gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau **www.rospa.com/leisuresafety**






# Ble i edrych?

Gallwch Gyfri Pryfed yn unrhyw le. Gwnewch siŵr bod gennych ganiatâd i fod yno.



Mae'r symbol hwn yn dangos lle da i chwilio am bryfed. Pan fo'r tywydd yn ffafriol, gall pryfed fod allan yn mwynhau'r haul, ond efallai y bydd yn rhaid i chwilio'n galetach ar adegau eraill.



# Mae'r arolwg yn dechrau yma

## A Archwilio'ch ardal

**1.** Dyddiad heddiw ____________________

**2.** Amser dechrau ____________________

**3.** Pa un o'r rhain sy'n disgrifio'r tywydd orau ar hyn o bryd?

 ☐  ☐  ☐  ☐

**4.** Pwy sy'n gwneud y gweithgaredd gyda chi heddiw?

ysgol gynradd | ysgol uwchradd | coleg / pryfysgol | grŵp ieuenctid | grŵp gwirfoddol o oedolion | teulu neu ffrindiau | arall

**5.** Faint o bobl sydd yn eich tîm arolwg Chwilio am Bryfed? ☐

**6.** Ydych chi wedi adnabod pryfed o'r blaen? ydw | na

**7.** Cofnodwch leoliad eich safle (cod post / cyfeirnod grid OS / darlleniad GPS).
Mae rhagor o gymorth ar gael ar wefan OPAL os ydych chi'n ansicr am yr union leoliad.

____________________

**8.** Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch safle?

☐ Gardd
☐ caeau ysgol neu brifysgol
☐ Stryd/stad
☐ Tir gwastraff
☐ Coetir
☐ Glaswelltir
☐ Parc
☐ Arall *rhowch fanylion* ____________________

Nesaf, disgrifiwch y micro-gynefinoedd y mae ardal eich arolwg yn eu darparu i'r pryfed fyw ynddyn nhw.





Mannau byw yw **cynefinoedd** sy'n darparu'r adnoddau sydd eu hangen i oroesi, fel bwyd a lloches. Mae cynefinoedd pryfed yn cynnwys glaswelltir, coetir a'n gerddi. Gellir rhannu cynefinoedd yn ardaloedd llai sef **micro-gynefinoedd**, sef rhannau o'r cynefin sy'n darparu adnodd penodol. Gall pot o flodau, tomen gompost, pentwr o ddail marw neu foncyffion wedi pydru i gyd fod yn ficro-gynefinoedd ar gyfer infertebratau.

Mae'r mwyafrif o rywogaethau angen mwy nag un micro-gynefin i oroesi. Er enghraifft, mae gloÿnnod byw trilliw bach angen danadl poethion i'w lindys eu bwyta, blodau i gynhyrchu neithdar i loÿnnod byw llawn-dwf ei fwyta, mannau heulog i dorheulo, a lle cysgodol i aeafgysgu.

**9.** Pa rai o'r micro-gynefinoedd hyn allwch chi eu gweld yn ardal eich arolwg?

## (a) Arwynebau tir meddal

- ☐ Pridd (e.e. gwely blodau, llain lysiau)
- ☐ Glaswellt byr (byrrach na 12cm)
- ☐ Dail sydd wedi disgyn neu bydru (sbwriel dail) neu naddion pren
- ☐ Potiau planhigion, cerrig mawr neu greigiau yn sefyll ar arwynebau pridd meddal
- ☐ Canghennau neu foncyffion marw ar y ddaear
- ☐ Tomen gompost agored

## (b) Arwynebau caled wedi'u gwneud gan bobl

- ☐ Adeilad (brics, pren, gwydr)
- ☐ Waliau brics neu gerrig (e.e wal ardd)
- ☐ Ffens bren
- ☐ Cerrig palmant
- ☐ Decin pren
- ☐ Tarmac neu goncrit (e.e. palmant, maes chwarae)
- ☐ Potiau planhigion yn sefyll ar arwynebau caled
- ☐ Offer chwarae

## (c) Planhigion

- ☐ Glaswellt hir (hirach nag uchder eich 12cm)
- ☐ Gwely blodau pot neu focs ffenestr wedi'i blannu
- ☐ Blodau gwyllt neu chwyn (llecyn gwyllt)
- ☐ Perthi
- ☐ Llwyni
- ☐ Coed
- ☐ Planhigion dringo (e.e. eiddew)

**10.** Tua faint o ardal eich arolwg sy'n arwyneb caled?

| dim | ychydig | tua hanner | y rhan fwyaf | y cyfan |
|---|---|---|---|---|





# B Heriau yn erbyn y cloc

## Her 1: Chwilio am bryfed ar arwynebau tir meddal

15 munud

Mae glaswellt byr yn golygu byrrach na 12cm

### Beth i'w wneud

**Dechreuwch y cloc!** Chwiliwch am 15 munud ar bridd a glaswellt byr, ymysg dail sydd wedi disgyn a chompost am unrhyw infertebratau sydd yno.

**Lle i chwilio**

**Pridd a glaswellt byr**



Aflonyddwch haenen uchaf pridd. Chwiliwch mewn glaswellt byr.

**Dail wedi disgyn**



Rhowch lond llaw neu ddwy o ddail wedi disgyn mewn hambwrdd yna edrychwch beth sy'n symud.

**O dan bethau**



Edrychwch o dan gerrig, potiau neu foncyffion sy'n sefyll ar bridd neu laswellt.

**Ceisiwch adnabod y pryfed** drwy ddefnyddio'r Canllaw Adnabod Poced o fewn y 15 munud. Chwiliwch am bryfed y Chwilfa Rhywogaethau.

**Cofnodwch nifer** pob gwahanol fath o bryfed y daethoch ar eu traws ar y dudalen gyferbyn. Os nad ydych yn eu hadnabod, cofnodwch nhw fel 'Infertebratau eraill'.





**Tynnwch lun os ydych chi'n gweld un o bryfed y Chwilfa Rhywogaethau** a chofnodwch faint welsoch chi.



| Nifer y coesau | Math o bryfyn | Faint welsoch chi |
|---|---|---|
| 0 | Malwod | |
| 0 | Gwlithod | |
| 0 | Pryfed genwair | |
| 6 | Pryfed | |
| 6 | Gwir-bygs | |
| 6 | Gwir-bryfed | |
| 6 | Gwenyn / gwenyn meirch | |
| 6 | Morgrug | |
| 6 | Gloÿnnod byw / gwyfynod | |
| 6 | Criciaid / ceiliogod y rhedyn | |
| 6 | Pryfed clust | |
| 8 | Pryfed cop / ceirw'r gwellt | |
| Mwy nag 8 | Pryfed lludw | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd cantroed | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd miltroed | |
| Anodd gweld | Larfâu pryfed | |
| Amherthnasol | Infertebratau eraill | |

Defnyddiwch rhiciau

Cyfanswm y pryfed a welwyd

## Chwilfa Rhywogaethau?



**Buwch Goch Gota Dau Smotyn**

Faint welsoch chi?



**Chwilen Gnoi**

Faint welsoch chi?



**Trilliw Bach**

Faint welsoch chi?



**Chwilen Werdd**

Faint welsoch chi?



**Gwlithen Lewpart**

Faint welsoch chi?



**Gwenyn y Coed**

Faint welsoch chi?





# Her 2: Chwilio am bryfed ar arwynebau caled wedi'u gwneud gan bobl

15 munud

## Beth i'w wneud

**Dechreuwch y cloc!** Chwiliwch am 15 munud ar bridd a glaswellt byr, ymysg dail sydd wedi disgyn a chompost am unrhyw infertebratau sydd yno.

**Lle i chwilio**

### Ar adeiladau



Chwiliwch dan silffoedd ffenestr - un o hoff leoedd corynod.

### O dan bethau



Chwiliwch ar gerrig palmant ac o dan botiau planhigion sy'n sefyll ar arwynebau caled.

### Llecynnau heulog



Mae rhai pryfed yn hoffi torheulo ar waliau, ffensys a cherrig palmant.

**Ceisiwch adnabod y pryfed** drwy ddefnyddio'r **Canllaw Adnabod Infertebratau** o fewn y 15 munud. Chwiliwch am pryfed y Chwilfa Rhywogaethau.

**Cofnodwch nifer** pob gwahanol fath o bryfed y daethoch ar eu traws ar y dudalen gyferbyn. Os nad ydych yn eu hadnabod, cofnodwch nhw fel 'Infertebratau eraill'.













**Tynnwch lun os ydych chi'n gweld un o bryfed y Chwilfa Rhywogaethau** a chofnodwch faint welsoch chi.






OPAL
CRAFFU AR NATUR

Defnyddiwch rhiciau

| Nifer y coesau | Math o bryfyn | Faint welsoch chi |
|---|---|---|
| 0 | Malwod | |
| 0 | Gwlithod | |
| 0 | Pryfed genwair | |
| 6 | Pryfed | |
| 6 | Gwir-bygs | |
| 6 | Gwir-bryfed | |
| 6 | Gwenyn / gwenyn meirch | |
| 6 | Morgrug | |
| 6 | Gloÿnnod byw / gwyfynod | |
| 6 | Criciaid / ceiliogod y rhedyn | |
| 6 | Pryfed clust | |
| 8 | Pryfed cop / ceirw'r gwellt | |
| Mwy nag 8 | Pryfed lludw | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd cantroed | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd miltroed | |
| Anodd gweld | Larfâu pryfed | |
| Amherthnasol | Infertebratau eraill | |

Sawl gwe pryf cop welsoch chi? ☐

Cyfanswm y pryfed a welwyd ☐

## Chwilfa Rhywogaethau?



**Buwch Goch Gota Dau Smotyn**

Faint welsoch chi? ☐



**Chwilen Gnoi**

Faint welsoch chi? ☐



**Trilliw Bach**

Faint welsoch chi? ☐



**Chwilen Werdd**

Faint welsoch chi? ☐



**Gwlithen Lewpart**

Faint welsoch chi? ☐



**Gwenyn y Coed**

Faint welsoch chi? ☐





# Her 3: Chwilio am bryfed ar blanhigion

15 munud

## Beth i'w wneud

**Dechreuwch y cloc!** Chwiliwch am 15 munud ar bridd a glaswellt byr, ymysg dail sydd wedi disgyn a chompost am unrhyw infertebratau sydd yno.


Mae glaswellt hir yn golygu hirach na 12cm

**Lle i chwilio**

| Ar ddail achoesynnau | Ar flodau | Ar goed a llwyni |
|---|---|---|
|  |  |  |
| Defnyddiwch eich llygaid a chwyddhadur yn unig i ddechrau. | Cofnodwch bryfed hedfan na allwch eu hadnabod fel Pryfed Hedfan Anhysbys. | Brwsiwch y planhigion yn ysgafn i symud y pryfed i'ch padell lwch. |

**Ceisiwch adnabod y pryfed** drwy ddefnyddio'r **Canllaw Adnabod Infertebratau** o fewn y 15 munud. Chwiliwch am bryfed y Chwilfa Rhywogaethau.

**Cofnodwch nifer** pob gwahanol fath o bryfed y daethoch ar eu traws ar y dudalen gyferbyn. Os nad ydych yn eu hadnabod, cofnodwch nhw fel 'Infertebratau eraill'.



**Tynnwch lun os ydych chi'n gweld un o bryfed y Chwilfa Rhywogaethau** a chofnodwch faint welsoch chi.





| Nifer y coesau | Math o bryfyn | Faint welsoch chi |
|---|---|---|
| 0 | Malwod | |
| 0 | Gwlithod | |
| 0 | Pryfed genwair | |
| 6 | Pryfed | |
| 6 | Gwir-bygs | |
| 6 | Gwir-bryfed | |
| 6 | Gwenyn / gwenyn meirch | |
| 6 | Morgrug | |
| 6 | Gloÿnnod byw / gwyfynod | |
| 6 | Criciaid / ceiliogod y rhedyn | |
| 6 | Pryfed clust | |
| 6 | Pryfed Hedfan Anhysbys | |
| 8 | Pryfed cop / ceirw'r gwellt | |
| Mwy nag 8 | Pryfed lludw | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd cantroed | |
| Mwy nag 8 | Nadroedd miltroed | |
| Anodd gweld | Larfâu pryfed | |
| Amherthnasol | Infertebratau eraill | |

Defnyddiwch rhiciau

A ddefnyddioch chi badell lwch neu frwsh? do / naddo

Sawl gwe pryf cop welsoch chi?

Cyfanswm y pryfed a welwyd

## Chwilfa Rhywogaethau?



**Buwch Goch Gota Dau Smotyn**

Faint welsoch chi?



**Chwilen Gnoi**

Faint welsoch chi?



**Trilliw Bach**

Faint welsoch chi?



**Chwilen Werdd**

Faint welsoch chi?



**Gwlithen Lewpart**

Faint welsoch chi?



**Gwenyn y Coed**

Faint welsoch chi?





## C — Anfonwch eich canlyniadau atom

Lanlwythwch eich canlyniadau ar wefan OPAL **www.OPALexplorenature.org** neu postiwch y taflenni cofnodi wedi'u cwblhau i:

**Freepost RSCH-CKYJ-HYYC, OPAL,**
**Centre for Environmental Policy,**
**Imperial College London, Llundain, SW7 2AZ**

Os ydych chi eisiau help i adnabod, ewch i **www.ispotnature.org**

iSpot *Your place to share nature*

Mae'r gweithgaredd hwn yn un o gyfres o arolygon natur a ddatblygwyd gan raglen Open Air Laboratories (OPAL) i'ch helpu i ddod i adnabod eich amgylchedd lleol a chasglu data gwyddonol pwysig ar yr un pryd. Yn sgil arian gan y Gronfa Loteri Fawr, mae ein rhwydwaith o brifysgolion, amgueddfeydd a sefydliadau bywyd gwyllt blaenllaw wedi bod yn datblygu gweithgareddau gwyddonol i ddinasyddion ers 2007 ac mae ein hadnoddau ar gael i bawb ledled y DU.



Os ydych chi wedi mwynhau'r arolwg hwn, beth am roi cynnig ar un arall? Fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch yn **www.opalexplorenature.org/surveys**

Hefyd, gallwch weld beth mae eich data wedi ei ddatgelu hyd yn hyn a chanfod llawer o ddulliau pellach o astudio'r amgylchedd ar ein gwefan: **www.opalexplorenature.org**

**www.facebook.com/opalexplorenature** **@OPALnature**

Imperial College London · University of Birmingham · The University of York · Natural History Museum · defra Department for Environment Food and Rural Affairs · FSC Bringing Environmental Understanding to All · Yn Dod â Dealltwriaeth Amgylcheddol i Bawb · Wildlife Gardening Forum · Environment Agency · Cronfa Loteri Fawr Big Lottery Fund · ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Datblygwyd y pecyn hwn gan: John Tweddle[1], Lucy Carter[1], Martin Batson[1], Stuart Hine[1], Adam Bates[2], Sarah West[3], Linda Davies[4,1], Roger Fradera[4], Simon Norman[5]. Ffotograffau gan: Gill Stevens, Carol Roberts, Harry Taylor, Roy Anderson, Martin Batson, Simon Norman, Rich Burkmar. Golygwyd gan: Roger Fradera[4], Laura Gosling[4], Poppy Lakeman Fraser[4], Kate Martin[4] and David Slawson[4]. [1]Natural History Museum. [2]University of Birmingham. [3]Prifysgol Efrog. [4]Imperial College London. [5]Cyngor Astudiaethau Maes.
© OPAL 2015. Cedwir pob hawl.